# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(47)v2

**1. Cwestiynau Cyllid i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru (60 munud)**

**NDM4918 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2011.

**Dogfennau Ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Ymateb y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4919 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod:

a) yr ymrwymiad a wnaethpwyd gan aelodau'r lluoedd arfog wrth amddiffyn ein gwlad; a

b) yr effaith ddinistriol y gall anhwylder straen wedi trawma ei chael ar fywyd cyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod pa mor annigonol yw'r gwasanaethau presennol i gyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma; a

b) cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynnydd a wnaethpwyd o ran gwella gwasanaethau trin anhwylder straen wedi trawma i gyn-aelodau'r lluoedd arfog ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i'r gwasanaethau hyn ym mis Chwefror 2011.

Nodyn: Gellir gweld adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog, Chwefror 2011, drwy fynd i:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-hwlg-home/business-hwlg-inquiries/hwlg3-ptsd2.htm

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu is-bwynt 1c newydd: "pwysigrwydd gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma"

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2a

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod mwy o achosion o anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-bersonél y lluoedd arfog ac yn mynegi pryder ar ôl deng mlynedd o weithredu milwrol yn Affganistan a chwe blynedd o weithredu milwrol yn Irac bod nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma yn debyg o godi yn y dyfodol ac yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau mwy o gefnogaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yn y dyfodol.

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM4920 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) adroddiad “All Wales Ethnic Minority Association – AWEMA” yn 2002;

b) adroddiad “All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects” yn 2004;

c) yn nodi bod cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn 2007 yn mynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu’r mudiad; a

d) adroddiad “Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a’r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)” yn 2012; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi datganiad yn amlinellu’n fanwl eu rhesymau dros barhau i gyllido AWEMA er bod pryderon cychwynnol wedi’u mynegi yn 2002, 2004 a 2007; a

b) datblygu a chyhoeddi protocol er mwyn sicrhau y caiff pryderon tebyg eu trin yn effeithiol yn y dyfodol.

Nodyn: Gall aelodau weld adroddiad 2002 “All Wales Ethnic Minority Association – AWEMA” ac adroddiad 2004 “All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects” yn Llyfrgell y Cynulliad.

Mae adroddiad 2012 “Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a’r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)” ar gael drwy fynd i:

http://cymru.gov.uk/docs/caecd/publications/120209finalawemareportdated8Febcy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

“1. Yn nodi methiant Gweinidogion i fynd i’r afael yn ddigonol â’r pryderon a godwyd gan:

a) adroddiad 2002 "All Wales Ethnic Minority Association – AWEMA";

b) adroddiad 2004 “All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and

Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects";

c) Cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) a ysgrifennodd at Lywodraeth Cymru yn 2007 i fynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu'r sefydliad; a

2. Yn nodi ymhellach adroddiad 2012 "Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a'r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)"; ac

ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oedd amseru cyhoeddi adroddiad 2012:

a) wedi rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad allu craffu arno ar unwaith mewn cyfarfod llawn; a

b) wedi rhoi cyfle i'r Gweinidog sy'n gyfrifol roi datganiad llafar brys.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi adroddiadau 2002 a 2004 ar-lein.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4917 Nick Ramsay (Mynwy):**

Dŵr - Adfywiad Adnodd.

O gamlesi i'r arfordir, o ynni gwyrdd i gronfeydd dŵr - bydd y Ddadl Fer yn tynnu sylw at rôl bwysig Dŵr ym mywyd Cymru a sut y gallwn ei reoli'n well.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2012